



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfodol byd-eang

Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng
Nghymru 2015–2020

www.llyw.cymru



Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: rhif 179/2015
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2015

Dyfodol byd-eang

Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020

- Cynulleidfa** Y gweithlu addysg cyfan a phartneriaid cenedlaethol ac o fewn y llywodraeth, gan gynnwys consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, undebau'r gweithlu ac awdurdodau esgobaethol.
- Trosolwg** Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ieithoedd tramor modern yng Nghymru o 2015–2020.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 060 3300
e-bost: CurriculumCorrespond@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasiau
- Dogfennau cysylltiedig** *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2015)

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Dyfodol byd-eang	3
Ein gweledigaeth	3
Ein strategaeth	3
Ein hamcanion	3
Y cyd-destun	3
Cymryd camau strategol	5
Dyfodol llwyddiannus	6
Cam strategol 1	7
Cam strategol 2	9
Cam strategol 3	12
Gwerthuso ac adrodd	13

Rhagair y Gweinidog

Mae dysgu ieithoedd eraill yn elfen bwysig yn addysg plant a phobl ifanc. Mae'n ehangu gorwelion, yn cyflwyno dysgwyr i ddiwylliannau eraill ac yn rhoi'r profiadau a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt er mwyn llwyddo yn yr economi fyd-eang newydd. Mae hwn yn fater a oedd yn ganolog i'n hadolygiad annibynnol diweddar o'r cwricwlwm, *Dyfodol Llwyddiannus*, a gynhaliwyd gan yr Athro Graham Donaldson, ac a dderbyniais innau'n llawn. Mae hwn yn amlinellu pedwar amcan y cwricwlwm, sef meithrin plant sydd:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Ym mis Mehefin, cyhoeddais ddull newydd o gefnogi ieithoedd tramor modern yng Nghymru. Mae *'Dyfodol Byd-eang – cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru'* yn arddangos fy ymrwymiad i sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn cael y sgiliau a'r hyfforddiant i gystadlu yn yr economi fyd-eang newydd.

Datblygwyd y cynllun pum mlynedd hwn drwy wybodaeth, profiad ac arbenigedd rhai o brif bartneriaid Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi sut rydym yn bwriadu, gyda'n gilydd, godi proffil ieithoedd tramor modern yng Nghymru a chefnogi ein hathrawon a'n dysgwyr er mwyn iddynt wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, cyfleoedd a allai newid eu bywydau. Mae hwn yn ddull sy'n cefnogi ein gweledigaeth yn *Cymwys am oes, cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*.

Rydym yn uchelgeisiol dros ein plant a'n pobl ifanc. Rydym am iddynt fod yn barod ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Dyna pam mae'r cynllun hwn yn cynnwys trefniadau partneriaeth newydd i Gymru, rhannu arferion effeithiol a defnyddio technolegau digidol newydd. Bydd grŵp llywio o randdeiliaid allweddol yn goruchwyllo'r gwaith hwn ac yn ei hyrwyddo.

Rwyf hefyd wedi nodi fy uchelgais i fod yn genedl 'Ddwyieithog a mwy' yma yng Nghymru, lle bydd ein dysgwyr yn astudio Cymraeg, Saesneg ac, o Flwyddyn 5, un iaith dramor fodern neu fwy. Er mwyn trafod sut y gellir gwneud hyn a phryd, bydd y grŵp llywio yn cydweithio â'r Rhwydwaith Arloesi wrth weithio ar gynllun a datblygiad y cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dyfodol byd-eang

Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod pob dysgwr yng Nghymru yn tyfu'n ddinasyddion byd-eang ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn ieithoedd eraill a gwerthfawrogi diwylliannau eraill.

Ein strategaeth

Ein strategaeth yw annog dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth am ddiwylliannau eraill drwy fod yn 'Ddwieithog a mwy', hynny yw drwy astudio Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith dramor fodern o oed cynradd i lefel arholiad.

Ein hamcanion

Ein hamcanion yw:

1. Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ar lefel 2 (lefel TGAU neu gyfatebol), lefel 3 (Safon Uwch neu gyfatebol) ac ar lefel addysg uwch,
2. Gwella system addysgu ieithoedd tramor modern i ddysgwyr 7-19 oed a gwella'r profiad dysgu, gyda'r bwriad o ddatblygu system 'Ddwieithog a mwy' lle bydd iaith dramor fodern yn dechrau cael ei haddysgu'n ffurfiol ym Mlwyddyn 5 fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu,
3. Cynnal y lefelau cyrhaeddiad presennol mewn ieithoedd tramor modern a'u gwella.

Y cyd-destun

Mae'r cynllun pum mlynedd hwn yn ymateb i'r gostyngiad a welwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn y niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern ar lefelau 2 a 3 ac mewn addysg uwch ledled Cymru.

Er bod perfformiad pobl ifanc sy'n astudio iaith dramor fodern yn gryf ar lefel TGAU a Safon Uwch, mae angen dybryd i annog llawer mwy o'n pobl ifanc i astudio un iaith dramor fodern neu fwy fel rhan o'u haddysg ysgol ym Mlynnyddoedd 10 ac 11, ac wedi hynny.

Mae angen inni sicrhau bod pob person ifanc o bob cefndir yn deall manteision cymhwyster ffurfiol mewn iaith dramor fodern a'u bod yn cael cyfle i ennill cymhwyster felly.

Mae'r gystadleuaeth gynyddol rhwng pynciau o fewn amserlenni ysgol a'r rhagdybiaeth mai Saesneg yw iaith bwysicaf busnes ar draws y byd wedi cyfrannu at y gostyngiad yn y niferoedd sy'n dysgu ieithoedd tramor modern i lefel arholiad.

Nid problem i Gymru'n benodol yw'r gostyngiad hwn, ond rydym yn benderfynol o sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn deall gwerth dysgu iaith dramor fodern i lefel arholiad ac yn deall sut y gall agor drysau ar lefel addysg bellach ac uwch a byd gwaith.

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rydym wedi adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ac wedi manteisio ar arbenigedd Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang sydd wedi rhoi cyngor inni o ran y camau isod. Dros bum mlynedd y cynllun, bydd y Grŵp Llywio yn parhau i roi cyngor ar hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru.

Cymryd camau strategol

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut yr ydym am fynd ati i herio'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern ar lefelau 2 a 3, ac wedi hynny, a sut yr ydym am newid hynny. Bydd y camau strategol a gymerwn yn seiliedig ar dair prif thema:

1. Hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd tramor modern fel pwnc pwysig, nid dim ond ar Lefel 2, ond hefyd fel dewis tymor hirach a all arwain at gyfleoedd gyrfa cyffrous a gwerthfawr,
2. Meithrin gallu'r gweithlu addysg i gynnig ieithoedd tramor modern yn effeithiol o Flwyddyn 5 ymlaen, a chefnogi'r gweithlu i ddatblygu'n broffesiynol, gan ei gwneud yn bosibl i bob dysgwr fanteisio ar strategaeth 'Dwyieithog a mwy' drwy'r Fargen Newydd ar gyfer y gweithlu addysg, adolygu hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon a'r rhwydwaith ysgolion arloesi,
3. Cynnig gwell cyfleoedd dysgu i ddenu a chyffroi dysgwyr.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, a bydd yn parhau i wneud hynny, gan fanteisio ar eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u profiad o gefnogi athrawon a dysgwyr. Yn eu plith mae:

- athrawon
- consortia addysg rhanbarthol
- Prifysgolion Cymru
- Goethe Institut
- Institut Français
- Alliance Française
- Llysgenhadaeth Sbaen
- Adran Addysg Prif Gonswl yr Eidal
- Sefydliadau Confucius
- y British Council
- Estyn
- Llwybrau at Ieithoedd
- y Brifysgol Agored yng Nghymru
- BBC Cymru

Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang, sef cynrychiolwyr y rhanddeiliaid hyn, fydd yn goruchwylio'r cynllun a'r rhaglen waith. Yn ogystal â goruchwylio'r gwaith, bydd y Grŵp Llywio:

- yn ystyried rôl technolegau digidol i gefnogi datblygiad iaith, ac unrhyw gysylltiadau â'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Cymhwysedd Digidol trawsgwricwlaidd,

- yn cydweithio â'r Rhwydwaith Arloesi i rannu deilliannau a manylion dysg cynllun Dyfodol Byd-eang ac i ystyried sut y gellir gwireddu 'Dwyieithog a mwy',
- yn cydweithio â'r Rhwydwaith Arloesi i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon a chefnogi'r egwyddorion a amlinellir yn *Addysgu Athrawon Yfory*, adroddiad John Furlong ar ddyfodol Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru.

Caiff y camau a amlinellir ar y tudalennau canlynol eu datblygu gan **Lywodraeth Cymru** a'r **consortia addysg rhanbarthol** mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

Dyfodol llwyddiannus

Bydd y camau a nodir yng nghynllun Dyfodol Byd-eang yn gysylltiedig â datblygiad y cwricwlwm newydd, gan gynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a phedwar amcan y cwricwlwm, sef meithrin plant sydd

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Cam strategol 1

Hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd tramor modern fel pwnc pwysig, nid dim ond ar Lefel 2, ond hefyd fel dewis tymor hirach a all arwain at byfleoedd gyrfa cyffrous a gwerthfawr.

Mae astudio ieithoedd a diwylliannau yn rhoi mwynhad i ddysgwyr, mae'n agor drysau iddynt deithio ac mae'n rhoi'r cyfle iddynt ddysgu ystod eang o sgiliau sy'n apelio i brifysgolion a chyflogwyr. Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am fanteision dewis iaith dramor fodern ar Lefelau 2 a 3 ac ar lefel uwch. Fodd bynnag, yn rhy aml o lawer, nid yw dysgwyr yn dewis iaith dramor fodern ar lefel arholiad ac mae hynny'n gallu cyfyngu ar eu gyrfa a'u llwybr bywyd.

Er mwyn ymateb i'r her hon, rydym yn bwriadu tynnu sylw dysgwyr, rhieni/gofalwyr, penaethiaid a llywodraethwyr at werth dysgu iaith dramor fodern.

Byddwn yn:

- cydweithio â'r consortia addysg rhanbarthol i **drefnu bod pobl sydd wedi llwyddo mewn gyrfa gan ddefnyddio ieithoedd a siaradwyr eraill** yn mynd i ysgolion ac yn sôn am yr amryw lwybrau gyrfa a llwybrau bywyd cyffrous sy'n gallu agor yn sgil astudio iaith dramor fodern ar lefel TGAU a Safon Uwch, neu ar lefelau cyfatebol,
- cydweithio â Gyrfa Cymru a'r consortia addysg rhanbarthol i wella ymwybyddiaeth o **wybodaeth berthnasol am y farchnad lafur a chyfleoedd gyrfa** a'r cyfleoedd sy'n gallu dod i berson ifanc yn sgil cyhmwyster mewn iaith dramor fodern,
- **adolygu sut mae ysgolion yn mynd ati i lunio blociau opsiwn TGAU a Safon Uwch ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11**, sicrhau dewis mwy cyfartal a gofalu na chaiff ieithoedd tramor modern eu gwthio i'r ymylon,
- cydweithio â Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang i **adolygu'r arholiadau ieithoedd tramor modern a gynigir i ddysgwyr** ar Lefel 2 ac ystyried a yw'r ffordd y cânt eu brandio a'u cyflwyno yn addas,
- datblygu ymgyrch farchnata a chyfathrebu i hyrwyddo ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU a Safon Uwch, neu arholiadau cyfatebol, ymhlith dysgwyr, rhieni, penaethiaid a llywodraethwyr. Bydd yr ymgyrch hon yn cyd-daro â'r cyfnod pan fydd dysgwyr yn gwneud eu dewisiadau TGAU a Safon Uwch,
- gan gydweithio â phrifysgolion, byddwn yn cyflwyno **cynllun mentora ar gyfer israddedigion iaith** mewn prifysgolion ac o fewn Llwybrau at Ieithoedd Cymru i weithio gyda 'chanolfannau rhagoriaeth' ysgolion a'r

ysgolion uwchradd sy'n bartneriaid yng Nghyfnod Allweddol 3. Pwrpas y cynllun fydd:

- a) tynnu sylw at fanteision dysgu iaith dramor fodern ar lefel TGAU, Safon Uwch a gradd,
- b) ehangu gorwelion a dyheadau dysgwyr drwy dynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael o ran gyrfa a theithio i'r rheini sydd â sgiliau iaith, er enghraifft gweithio ac astudio dramor,
- c) codi lefelau disgwyliadau, gwella cymhelliant a chryfhau dyfalbarhad a dycnwch personol dysgwyr sy'n astudio ieithoedd tramor modern,
- ch) creu cysylltiadau cynaliadwy rhwng adrannau ieithoedd modern addysg uwch a'r ysgolion uwchradd sy'n bartneriaid,
- d) cynnig profiadau a chyfleoedd yn y dosbarth i israddedigion ieithoedd tramor modern, er mwyn annog nifer fwy i ystyried gyrfa addysgu iaith dramor fodern.

Cam strategol 2

Meithrin gallu'r gweithlu addysg i gynnig ieithoedd tramor modern yn effeithiol o Flwyddyn 5 ymlaen, a chefnogi'r gweithlu i ddatblygu'n broffesiynol, gan ei gwneud yn bosibl i bob dysgwr fanteisio ar strategaeth 'Dwyieithog a mwy' drwy'r Fargen Newydd ar gyfer y gweithlu addysg, adolygu hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon a'r rhwydwaith ysgolion arloesi.

Mae gwella safonau addysgu yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i nodi fel amcan strategol yn *Cymwys am Oes* (Llywodraeth Cymru 2014) – 'Gweithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg gryf wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio'. Mae hefyd yn golygu cydweithredu drwy ganolfannau rhagoriaeth ysgolion. Mae hyn yn elfen allweddol o rannu arferion effeithiol fel y'i hamlinellir yn y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Byddwn yn sefydlu model cymorth cynaliadwy ar gyfer yr athrawon ieithoedd tramor modern sydd gennym eisoes yng Nghymru a darpar-athrawon iaith. Byddwn hefyd yn annog athrawon i ddatblygu eu sgiliau addysgeg ymhellach drwy ddatblygiad proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer y rheini sy'n athrawon arbenigol a'r rheini sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau iaith, yn enwedig y rheini mewn ysgolion cynradd.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy sefydlu '**canolfannau rhagoriaeth' ysgolion** ym mhob un o'r consortia addysg rhanbarthol. Bydd y consortia yn cefnogi'r canolfannau rhagoriaeth a byddant yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau iaith, y British Council, prifysgolion a rhanddeiliaid priodol eraill er mwyn creu gwell cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon.

Bydd 'canolfannau rhagoriaeth' yr ysgolion yn:

- **adeiladu ar eu harferion eu hunain o ddarparu profiadau dysgu effeithiol a rhannu'r rhain yn uniongyrchol ag ysgolion uwchradd sy'n bartneriaid ac ysgolion cynradd sy'n eu bwydo drwy system gydgymorth ysgolion**
- **datblygu a darparu hyfforddiant, adnoddau a deunyddiau mewn partneriaeth ag athrawon ieithoedd tramor modern**
- **hwyluso cyfleoedd rhwydweithio ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern i arloesi a rhannu syniadau ac arferion addysgu effeithiol sy'n gwneud ieithoedd yn ddiddorol ac yn bleser eu dysgu**
- **datblygu a darparu adnoddau a deunyddiau digidol Cymraeg a Saesneg i'w cyhoeddi ar Hwb, platfform dysgu Cymru gyfan, fel y gellir eu rhannu'n genedlaethol**

- **creu rhwydweithiau digidol drwy Hwb i rannu adnoddau a darparu fforwm ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern ledled Cymru er mwyn trafod arferion effeithiol, arloesi, a rhannu a datblygu eu syniadau**
- **trefnu a hwyluso darpariaeth hyfforddiant a deunyddiau gan y sefydliadau iaith sydd â chyfoeth o wybodaeth, adnoddau, deunyddiau ac arbenigedd y byddant yn eu rhannu â'n hysgolion er mwyn gwella'r broses o ddysgu ac addysgu ieithoedd**
- **gwella'r trefniadau pontio o ran ieithoedd tramor modern rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, cefnogi datblygiad iaith, atal dyblygu ymdrech a hwyluso'r gwaith o ddatblygu strategaeth 'Dwyieithog a mwy' i Gymru wrth inni weithredu argymhellion adroddiad Dyfodol Llwyddiannus.**

Bydd y consortia addysg rhanbarthol yn nodi'r 'canolfannau rhagoriaeth' sydd yn eu hardal nhw a byddant yn helpu'r canolfannau i lunio cynlluniau gweithredu pwrpasol, ac amserlenni ar eu cyfer, er mwyn cyflawni eu hamcanion. Bydd y consortia hefyd yn helpu i fonitro gwaith y 'canolfannau rhagoriaeth' a byddant yn cynnig her briodol i sicrhau canlyniadau o ansawdd. Gofynnir i athrawon ac ysgolion gysylltu â chynrychiolydd eu consortiwm i gael gwybod sut i gael cymorth oddi wrth eu 'canolfannau rhagoriaeth'.

Mae manylion yr ysgolion a nodir yn 'ganolfannau rhagoriaeth' ym mhob consortiwm ar wefan Dysgu Cymru - dysgu.llyw.cymru

Cynhadledd ieithoedd tramor modern – haf 2016

Mae rhannu syniadau ac arferion yn broffesiynol yn elfen allweddol o ddatblygiad proffesiynol. O gofio'r ffocws ar sut yr awn ati i lunio'r cwricwlwm a'n huchelgais i fod yn genedl 'Ddwyieithog a mwy', mae haf 2016 yn gyfle amserol i athrawon ieithoedd tramor modern yng Nghymru ymgynnull i drafod effaith gychwynnol y dull gweithredu newydd hwn a sut rydym am ddatblygu'r broses o ddysgu iaith o fewn y cwricwlwm yn y dyfodol.

I gefnogi hyn, byddwn yn:

cynnal cynhadledd ieithoedd tramor modern er mwyn rhannu arferion effeithiol y 'canolfannau rhagoriaeth' ac athrawon ieithoedd tramor modern ledled Cymru. Y nod yw ymchwilio i'r materion sy'n codi yn sgil datblygu 'Dwyieithog a mwy' a thrafod casgliadau adolygiad 2015 Estyn o'r broses o addysgu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.

Technolegau digidol

Bellach, nid yw hyfforddiant a rhannu syniadau, adnoddau, deunyddiau ac arferion yn golygu bod yn rhaid i bawb fod yn yr un ystafell, ac ym mhob rhan o'r cwricwlwm rydym yn croesawu technolegau digidol megis Hwb er mwyn ein helpu i addysgu a dysgu.

I ategu hyfforddiant a'r broses o ddatblygu a rhannu arferion effeithiol, byddwn yn:

- cydweithio â '**chanolfannau rhagoriaeth' yr ysgolion** er mwyn nodi a hyrwyddo technolegau digidol effeithiol;
- cydweithio â **Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang** er mwyn ymchwilio i sut y gallwn harneisio technolegau digidol newydd i wella'r broses o ddysgu ieithoedd – i athrawon a dysgwyr. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar wella sgiliau athrawon cynradd nad ydynt yn arbenigwyr,
- helpu gyda gwaith yr Arloeswyr Digidol sy'n datblygu Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm. Bydd hwn yn cyd-fynd â'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd presennol, a bydd ar gael i ysgolion o fis Medi 2016.

O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn creu dull cynaliadwy a strategol o ddatblygu proffesiynol er mwyn gwella'r broses o addysgu ieithoedd tramor modern.

Cam strategol 3

Cynnig gwell cyfleoedd dysgu i ddenu a chyffroi dysgwyr.

P'un a ydynt yn astudio iaith ai peidio, gall dysgwyr elwa'n fawr ar daith gyfnewid ddiwylliannol, trip dramor a/neu bartneriaeth gyda gwlad Ewropeaidd neu y tu allan i Ewrop. Mae nifer o ysgolion yng Nghymru eisoes yn trefnu teithiau cyfnewid diwylliannol, yn mynd ar dripiâu tramor bob blwyddyn neu wedi sefydlu partneriaethau ag ardaloedd ac ysgolion ledled y byd. Mae profiadau o'r fath yn denu dysgwyr na fyddent wedi ystyried astudio ieithoedd ac maent yn helpu i godi lefelau cyrhaeddiad.

Rydym am sicrhau bod yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni hyn yn parhau i wneud hynny ac rydym am annog ysgolion eraill hefyd i wneud. Mae cyllid ar gael drwy'r British Council a rhaglenni Ewropeaidd i helpu i sefydlu'r teithiau cyfnewid a'r partneriaethau, ac mae'n bwysig bod cymaint o ysgolion yng Nghymru â phosibl yn defnyddio'r ffrydiau cyllid hyn.

Byddwn yn:

- cydweithio â'r British Council i **hyrwyddo'r rhaglenni a'r cyfleoedd am gyllid ymhlith y consortia addysg rhanbarthol** a byddwn yn cydweithio â 'chanolfannau rhagoriaeth' ysgolion i gefnogi eu ceisiadau am gyllid.
- cydweithio â'r consortia addysg rhanbarthol ac â'r British Council i **lunio canllawiau ac astudiaethau achos i gefnogi ysgolion** sydd am drefnu'r profiadau hyn.
- cydweithio â'r sefydliadau iaith a'r consortia addysg rhanbarthol i nodi cyfleoedd lle gallant **roi cymorth uniongyrchol a phrofiadau dysgu diddorol i ddysgwyr** er mwyn gwella'r ddarpariaeth bresennol.
- cydweithio â'r consortia addysg rhanbarthol a Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang i **ymchwilio i sut i ddefnyddio'r technolegau digidol a'r adnoddau sydd gennym eisoes yn effeithiol** er mwyn gwella'n harferion addysgu.
- cydweithio â'r consortia addysg rhanbarthol i ymchwilio i **gyfleoedd anffurfiol** (fel sesiynau blasu) er mwyn annog dysgwyr i roi cynnig ar ddysgu iaith.

Gwerthuso ac adrodd

Bydd y consortia addysg rhanbarthol yn datblygu cynlluniau gweithredu ar sail amcanion a meini prawf llwyddo clir i fonitro effaith eu gwaith gyda'u canolfannau rhagoriaeth i gefnogi a gwella'r broses o ddysgu ieithoedd tramor modern. Bydd y cynlluniau yn seiliedig hefyd ar amcanion i roi tystiolaeth berthnasol, ac i sicrhau bod y cynllun yn ymateb i sefyllfaoedd penodol ac yn hyblyg.

Bydd Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang yn goruchwyllo'r dulliau a ddefnyddir gan 'ganolfannau rhagoriaeth' ysgolion, bydd yn herio ac yn cefnogi consortia addysg rhanbarthol a'r 'canolfannau rhagoriaeth', a bydd yn sicrhau bod amcanion y cynllun hwn yn cael eu cyflawni.

Bydd y broses werthuso yn asesu'r effaith ar ddysgwyr yn ysgolion y bartneriaeth leol yn ogystal â darparu tystiolaeth am arferion y gellir eu defnyddio ar lefel genedlaethol.

Yn benodol, bydd y broses werthuso yn ystyried effaith strategaeth Dyfodol Byd-eang ar y niferoedd sy'n astudio iaith dramor fodern ar Lefelau 2 a 3 ac sy'n cymryd arholiadau.

Bob blwyddyn, byddwn yn adrodd ar gynnydd y flwyddyn flaenorol.